

Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i
Deuluoedd (UCCACD)
Education and Family Support Directorate –
Directorate Support Unit (EDSU)

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU / LH
Eich cyf / Your ref: January 2021

Dyddiad / Date: 17 Rhagfyr 2020

Annwyl Riant/Gofalwr

Wrth inni nesáu at ddiwedd blwyddyn anodd, gwn y bydd llawer ohonoch yn awyddus i wybod pa drefniadau y bydd ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn eu rhoi ar waith ar gyfer mis Ionawr 2021.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y trefniadau ar gyfer dechrau'r tymor yn ysgol eich plentyn.

Bydd holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio dydd Llun 4 Ionawr a dydd Mawrth 5 Ionawr i asesu faint o staff sydd ar gael, adolygu asesiadau risg a pharhau i sicrhau bod yr ysgol yn amgylchedd diogel i ddysgwyr unwaith eto.

Mae hyn yn golygu, ar y ddau ddiwrnod hyn, na fydd unrhyw ddysgwyr yn yr ysgol. Mae hefyd yn golygu na fydd cyfleoedd dysgu uniongyrchol ar-lein yn cael eu darparu gan ysgolion unigol ar gyfer eu disgyblion ar 4 a 5 Ionawr.

Ar 6, 7 ac 8 Ionawr, bydd yr holl ysgolion **babanod, iau, cynradd ac arbennig** ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd â **phlant oedran ysgol gynradd** yn darparu cymorth ar y safle ar gyfer **plant gweithwyr hanfodol yn unig**.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, diffinnir gweithiwr hanfodol fel rhywun sy'n gweithio i un o'r sefydliadau canlynol:

- Iechyd
- Gofal cymdeithasol
- Gwasanaeth tân ac achub
- Heddlu
- Gwasanaeth ambiwlans
- Addysg

Yn yr un modd ag y maen nhw wedi'i wneud yr wythnos hon (h.y. gan ddefnyddio'r un meini prawf cymhwysedd), cynghorir gweithwyr hanfodol, os yw eich plentyn o oedran ysgol gynradd, ddydd Llun 4 Ionawr, bydd ysgol eich plentyn yn gofyn i chi roi gwybod iddyn nhw pa blant fydd yn mynychu'r ysgol ar 6, 7 ac 8 Ionawr.

Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r awdurdod lleol gynllunio darpariaeth briodol ar gyfer prydau ysgol a chludiant i ddysgwyr.

Ni fydd unrhyw ddarpariaeth ar y safle/yn yr ysgol ar gyfer plant gweithwyr hanfodol mewn unrhyw ysgolion uwchradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 6, 7 ac 8 Ionawr.

Bydd disgyblion a fydd yn dysgu o gartref ar 6, 7 ac 8 Ionawr yn derbyn gweithgareddau dysgu ar-lein gan eu hysgolion. Ni fydd ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr sydd eisoes wedi darparu sesiynau ar lein yn darparu rhain yn ystod y cyfnod tridiau yma.

O ddydd Llun 11 Ionawr ymlaen, bydd y dysgwyr yn dechrau dychwelyd i'r ysgol.

Penderfyniad YG Bro Ogwr yw i groesawu POB disgybl nôl i'r ysgol ar ddydd Llun, 11 Ionawr.

Diolch, unwaith eto, am eich cymorth a'ch amynedd parhaus.

Cymerwch ofal – a mwynhewch Nadolig diogel.

Yn gywir



Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr